

Rhan B: Sut mae ysgol yn datblygu un agwedd ar ei
Chynllun Datblygu Ysgol: adroddiad sy'n adfyfyrio'n
feirniadol ar y camau gweithredu, yr effaith a'r
sylfaen dystiolaeth

Dyddiad Cyflwyno: 04/03/2024

Rhif myfyrwyr: 1811664

Geiriau traethawd: 2726

Sut mae ysgol yn datblygu un agwedd ar ei Chynllun Datblygu

Ysgol: adroddiad sy'n adfyfyrio'n feirniadol ar y camau gweithredu, yr effaith a'r sylfaen dystiolaeth

Rhagarweiniad

Gwelwyd newidiadau enfawr mewn strwythur addysg Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. O ganlyniad i ganlyniadau siomedig Cymru yn yr asesiadau 'Programme for International Student Assessment' (PISA) yn 2009 (Bradshaw *et al.*, 2010), fe gyflwynodd Llywodraeth Cymru, y Cwricwlwm i Gymru sy'n cynnwys nifer o strategaethau pedagogaidd effeithiol pwysig maent yn anelu ato er mwyn gwella system addysg Cymru. Erbyn 2022, o ganlyniad i'r heriau mae'r pandemig wedi rhoi ar y byd addysg, roedd Cymru dal yn tangyflawni yn yr asesiadau PISA (Dauncey, 2023). Fel rhan o'r Cwricwlwm, anogwyd pwysigrwydd ysgolion yn canolbwyntio ar eu Cynlluniau Datblygu Ysgolion (CDY). Cynllun strategol yw hyn sy'n cynnwys camau y bydd ysgolion yn cymryd i wella deilliannau dysgwyr ar gyfer gwelliant (Cynlluniau Datblygu Ysgolion, 2014). Rhaid i'r targedau mae ysgol yn gosod bod yn rhai realistig, cyraeddadwy ac uchelgeisiol (Llywodraeth Cymru, 2022). Mae'r camau gweithredu felly yn cael eu cynllunio ar y cyd gydag athrawon, gweithwyr addysg broffesiynol, a'r Llywodraeth, gan gynnwys ystyriaethau o arferion da o'r byd ehangach (Llywodraeth Cymru, 2020). Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad cydweithredol rhwng y trydydd sector, y proffesiwn addysg, a'r sector gyhoeddus er mwyn datblygu strategaethau addysgu effeithiol a chyfoes yng Nghymru.

Yn y traethawd yma, rwyf yn bwriadu trafod un agwedd o CDY ysgol benodol a chanolbwyntio ar adfyfyrio'n feirniadol ar y camau gweithredu, yr effaith a'r sylfaen dystiolaeth.

Nid wyf yn gallu enwi'r Ysgol o ganlyniad i ganllawiau BERA (2018), ond mae'r traethawd yn seiliedig ar bwynt gweithredu o CDY yr adran hanes mewn ysgol Cymraeg ar gyfer dysgwyr 11-18 wedi lleoli mewn ardal drefol yn Ne Cymru. Mae 1,113 o ddisgyblion ar y gofrestr (546 o fechgyn/567 o ferched (My Local School, 2023). Mae 7.5% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae 16.9% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol ychwanegol (Estyn, 2023).

Yn dilyn Covid-19, mae'r ysgol wedi profi dirywiad anferth ar safonau a chynnydd eu dysgwyr. Penderfynwyd felly ffocysu ar y flaenoriaeth gyntaf yn CDY yr ysgol sef 'Codi

Safonau', ond yn fwy penodol, rwyf yn mynd i drafod sut mae'r adran hanes yn mynd ati i weithio ar y flaenoriaeth yma trwy ffocysu ar dangyflawniad bechgyn yr ysgol. Ymhellach, cysyllta hyn gyda nod y Cwricwlwm i Gymru wrth iddo fynd i'r afael â thangyflawni ymhlith bechgyn. Un o egwyddorion allweddol y cwricwlwm newydd yw rhoi hyblygrwydd ac ymreolaeth i ysgolion ac addysgwyr i deilwra profiadau dysgu i ddiwallu anghenion a diddordebau amrywiol pob dysgwr, gan gynnwys bechgyn a allai fod yn tangyflawni.

Adolygiad Llenyddiaeth – Cynllun Datblygu Ysgol

Mae CDY yn chwarae rhan hanfodol wrth lywio cyfeiriad strategol ac ymdrechion gwella sefydliadau addysgol. Yn ôl Llywodraeth Cymru, dylai CDY "nodi'r camau y bydd ysgol yn eu cymryd i wella deilliannau dysgwyr" ac maent yn nodi bod pump cam penodol i ddatblygu CDY effeithiol sydd mewn cylch parhaol (Cynlluniau Datblygu Ysgolion, 2014, tud 3). Mae'r cylch parhaol yma yn cynnwys y camau gweledigaeth, hunanwerthuso, cynllunio strategol, gweithredu a gwneud gwelliannau ac adolygu effaith (Cynlluniau Datblygu Ysgolion, 2014). Yn yr un modd, awgryma Masters (2016) methodoleg gydweithredol gan gynnwys y pump cam adnabod sefyllfa eich ysgol, nodi canlyniadau dymunol, dylunio a gweithredu, mesur a monitro a myfyrio. Mewn cyfeiriad hollol wahanol, nodir Levačić mai'r camau; cynllunio gweithredol manwl, rheoli a gweinyddu gweithgareddau arfaethedig, monitro ac adrodd sy'n allweddol i gyflawni CDY effeithlon (Levačić, 1999).

Mae CDY ysgol fel arfer yn seiliedig ar fonitro llwyddiannau a gwendidau dysgwyr yr ysgol gan ddefnyddio data, canlyniadau arholiadau, llyfrau disgyblion, sgriptiau arholiad a mwy. Gwelir bod monitro yn gyson ar draws y camau rwyf wedi sôn amdano uchod, ac felly gellir dadlau bod hi'n gam pwysig iawn. Cytuna Murphy (2018) bod monitro, gwerthuso ac adolygu parhaus yn elfennau hanfodol y broses. Yn ôl Murphy (2018), mae monitro parhaus yn galluogi ysgolion i olrhain cynnydd, nodi heriau, a gwneud addasiadau angenrheidiol i gynlluniau gweithredu. Mae gwerthuso'n cynnwys asesu effaith ar ddeilliannau myfyrwyr, perfformiad ysgol, a boddhad rhanddeiliaid. Mae adolygiad rheolaidd o'r CDY yn galluogi ysgolion i fyfrio ar y gwersi a ddysgwyd, dathlu llwyddiannau, a nodi meysydd i'w gwella, gan sicrhau bod y cynllun yn parhau i fod yn berthnasol ac yn ymatebol i anghenion ac amgylchiadau esblygol. Cytuna Llywodraeth Cymru gyda'r ddadl yma trwy nodi bod gweithredu'r CDY yn golygu rhoi'r cynlluniau gweithredu ar waith a monitro cynnydd tuag at gyflawni'r nodau a nodwyd. Mae'r cam hwn yn gofyn am fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd strategaethau yn barhaus, yn ogystal ag adolygu ac addasu'r CDY yn rheolaidd yn ôl yr angen (Llywodraeth Cymru, 2022). Mae ymchwil yn amlygu pwysigrwydd defnyddio data a

thystiolaeth i fonitro cynnydd, nodi rhwystrau i weithredu, a gwneud penderfyniadau gwybodus am addasiadau i'r CDY (OECD, 2020).

Camau pwysig arall o gynllunio CDY effeithiol yw cynnwys rhanddeiliaid yn y broses, a hefyd myfyrion ar yr hyn rydym yn dysgu o'r data rydym wedi casglu. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys athrawon, arweinwyr ysgol, rhieni, myfyrwyr, ac aelodau'r gymuned, yn hanfodol ar gyfer datblygu CDY ystyrlon. Mae rhanddeiliaid yn dod â safbwyntiau, arbenigedd a mewnwediadau amrywiol i'r broses gynllunio, gan sicrhau bod y cynllun yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau cymuned yr ysgol gyfan (Murphy, 2018). Mae cydweithio a gwneud penderfyniadau ar y cyd yn meithrin perchnogaeth ac ymrwymiad i'r CDY, gan gynyddu ei debygolrwydd o lwyddiant. Gan ddefnyddio'r holl wybodaeth rydym wedi casglu, mae modd myfyrion ar yr hyn rydym wedi dysgu er mwyn addasu CDY ym mhellach. Dywed Llywodraeth Cymru (2022) bod gwerthuso effaith ymyriadau ac adolygu effeithiolrwydd cyffredinol y cynllun yn cynnwys asesu cynnydd tuag at gyflawni nodau, gwerthuso effeithiolrwydd strategaethau ac ymyriadau, a myfyrion ar wersi a ddysgwyd ar gyfer cylchoedd cynllunio'r dyfodol. Yn ôl Harris a Chapman (2002), mae gwerthuso yn cynnwys asesu cynnydd tuag at gyflawni nodau, dadansoddi canlyniadau, a chasglu adborth gan rhanddeiliaid. Mae'n rhoi cipolwg gwerthfawr i ysgolion ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a pha feysydd y mae angen eu gwella, gan ganiatáu iddynt addasu eu strategaethau a dyrannu adnoddau'n fwy effeithiol.

Mae'n hynod amlwg o'r amlinelliad uchod felly bod pob un o'r camau cyhoeddwyd gan y Llywodraeth yn cyfrannu at greu CDY effeithiol, ac mae'r camau i gyd yn cydbwethu gyda'i gilydd, yn dangos arwyddocâd pob un cam.

Adolygiad Llenyddiaeth – Tangyflawni Bechgyn

Mae tangyflawni bechgyn mewn ysgolion wedi bod yn destun o bryder yng Nghymru a llawer o wledydd eraill, gan y gall fod â goblygiadau sylweddol i degwch addysgol a chanlyniadau cyffredinol myfyrwyr. Yn ôl Browne a Mitsos (1998, tud 1), mae tangyflawni bechgyn yn un o'r broblemau mwyaf yn addysg, ac felly yn amlwg maen pwnc eithriadol o bwysig.

Mae sawl ffactor wedi'u nodi fel rhai sy'n cyfrannu at dangyflawni bechgyn mewn ysgolion yng Nghymru. Un ffactor allweddol yw'r bwlch rhwng y rhywiau mewn cyrhaeddiad academiaidd, gyda merched yn perfformio'n well na bechgyn (Llywodraeth Cymru, 2020). Mae'r bwlch hwn yn amlwg ar draws amryw o lefelau addysg, gan gynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd, ac mae wedi bod yn destun pryder i lunwyr polisi ac addysgwyr.

Dengys ymchwil yn 2019 bod perfformiad TGAU A* i C 9.8% yn is ar gyfer bechgyn na merched, gan barhau â phatrwm sydd wedi'i hen sefydlu. Hefyd, roedd cyfran y bechgyn a gafodd y graddau uchaf mewn Saesneg 17% yn is na merched (BBC News, 2019). Dywed Hacker (BBC News, 2019) *"There was no lack of ability but there was certainly a lack of confidence in their own ability"*, ac felly mae'n amlwg bod ffactorau amrywiol yn dylanwadu ar gyrhaeddiad bechgyn i fewn addysg.

Ffactor arall sy'n cyfrannu at dangyflawni bechgyn yw gwahaniaethau rhyw mewn ymgysylltiad a chymhelliant. Mae ymchwil yn awgrymu bod bechgyn yn llai parod i gyfrannu ac bod ganddyn nhw llai o gymhelliant i lwyddo'n academiaidd o gymharu â merched (Francis, 2000). Gall ffactorau fel stereoteipiau rhyw, pwysau cyfoedion, a disgwyliadau cymdeithasol o wrywdod ddylanwadu ar agweddau bechgyn tuag at ddysgu a chyflawniad academiaidd. Yn ôl Jackson a Salisbury (1996, tud 105), mae'r stereoteip bod addysg yn *"unmanly"* yn aml yn cyfrannu at yr ymdrech mae bechgyn yn rhoi i ddysgu. Aeth Jackson (1998) ymhellach i ddadlau bod y labelau megis *"swot"* sydd yn cael ei rhoi ar fechgyn sy'n gwneud yn dda yn yr ysgol yn ysgogi'r syniad ni ddylai bechgyn ymddangos fel eu bod yn ceisio'n galed yn yr ysgol, ac felly yn cyfrannu at dangyflawniad bechgyn yn yr ysgol. Mae'n barn poblogaidd iawn bod y stereoteipio ar sail rhyw yma yn cael ei cyflyru mewn i blant o oedran ifanc. Atgyfnerthwyd gan Willow (BBC News, 2023) yw bod y stereoteipiau yma ymhobman ac *"it causes serious, long-lasting harm"*. Mae blaenoriaethau merched a bechgyn wedi newid. Mae merched yn ffocysi'n fwy ar y dyfodol, ac nawr yn anelu at swyddi mwy uchelgeisiol megis cyfreithwyr a doctorion, ac mae bechgyn yn anelu at edyrch yn fwy gwrywaidd yn cymdeithas (Burns a Bracey, 2001). Yn amlwg felly, mae seicoleg a disgwyliadau cymdeithasol yn cael effaith eithriadol ar lwyddiant mewn addysg.

Mae mynd i'r afael â thangyflawni bechgyn mewn ysgolion yng Nghymru yn gofyn am ddull amlochrog sy'n ystyried y cydadwaith cymhleth o ffactorau sy'n cyfrannu at y mater. Gall strategaethau i gefnogi cyflawniad academiaidd bechgyn gynnwys ymyriadau wedi'u targedu i wella ymgysylltiad a chymhelliant, yn ogystal ag ymdrechion i herio stereoteipiau rhyw a hyrwyddo amgylcheddau dysgu cynhwysol a theg (Llywodraeth Cymru, 2020).

Datblygu pwynt gweithredu

Mae cynllunio CDY effeithiol yn unol â'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn gofyn am ddull strategol a chydweithredol. Yn gyntaf, cynnal asesiad o anghenion i nodi meysydd i'w gwella yn unol â nodau'r cwricwlwm newydd (Llywodraeth Cymru, 2020). Ymgorffori strategaethau ac ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ee. data, i hyrwyddo ymgysylltiad a chyflawniad

myfyrwyr (Smyth *et al.*, 2000). Trwy fabwysiadu dull cydweithredol yn seiliedig ar ddata, gall ysgolion gefnogi gweithrediad y cwricwlwm newydd yn effeithiol, a gwella canlyniadau myfyrwyr.

Fe wnaeth yr ysgol dan sylw dewis ffocysu ar gynnal a gwella safonau pob cyfnod allweddol (CA) ac anelu am berfformiadau uchel ym mhrif ddangosyddion CA3, CA4 a CA5. Bu'r flaenoriaeth yma yn cyd-fynd ag blaenoriaethau cenedlaethol y wlad, ac felly bu'n hollbwysig i sicrhau llwyddiant yn yr ysgol (Cynlluniau Datblygu Ysgolion, 2014). Er mwyn sicrhau llwyddiant y CDY ar draws yr ysgol gyfan, fe wnaeth pob adran hunanwerthuso a chreu Cynllun Datblygu Adrannol (CDA). Rwy'n ffocysu ar CDA yr adran hanes, a sut maen nhw yn mynd ati i weithredu'r flaenoriaeth o gynnal safonau o fewn yr adran, ac un agwedd oedd yn sefyll allan oedd y ffocws ar wella tangyflawni bechgyn, yn enwedig yn CA3.

Cyn i'r ysgol cychwyn ar ddatblygu CDY llwyddiannus, mae angen hunanwerthuso. Hunanwerthuso yw'r broses o fyfrio ar berfformiad yr ysgol ar amrywiaeth o faterion megis llwyddiannau, pwyntiau gweithredu, cyllid, ac effaith ar ddysgwyr (Cynlluniau Datblygu Ysgolion, 2014). Gan fod CDY yn cael ei ystyried fel dogfennau "byw", mae hunanwerthuso yn rhan allweddol o weithgareddau rheolaidd mewn ysgolion (Cynlluniau Datblygu Ysgolion, 2014).

Dywed Llywodraeth Cymru (2014), dylai ysgolion "asesu eu cynnydd yn erbyn targedau/cerrig milltir a osodwyd fel rhan o'u trefniadau monitro rheolaidd." Dyma yn union beth mae'r ysgol dan sylw yn ceisio gwneud. Mae gan yr ysgol cydlynnydd data sy'n dadansoddi'r data, a'i gosod mewn i ddalennau Excel er mwyn i bob adran gwerthuso arnynt. Mae adrannau wedyn yn mynd ati i ddefnyddio llyfrau'r disgyblion, sgriptiau arholiad myfyrwyr a hefyd yn cymharu data siriol a CBAC i weld llwyddiant yn ysgol i gymharu ag ysgolion arall y gymuned. Yn ôl Estyn (2023), mae gan yr ysgol perthynas positif yn cyfathrebu gyda rhanddeiliad o fewn, a thu allan i'r ysgol, ac mae'n cymuned agos o ran cydweithio ar gyfer sicrhau ysgol agored. Mae ymgorffori'r ymyriadau hyn sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn y CDY yn gofyn am ddull cydweithredol sy'n cael ei yrru gan ddata sy'n cynnwys yr holl randdeiliaid, gan gynnwys arweinwyr ysgol, athrawon, rhieni ac aelodau'r gymuned. Dylai datblygiad y pwynt gweithredu ddechrau gydag asesiad anghenion cynhwysfawr i nodi meysydd penodol o breder, a meysydd blaenoriaeth ar gyfer ymyrraeth (Epstein, 2001). Dylai hyn gael ei ddilyn gan sefydlu nodau ac amcanion clir, gyda dangosyddion mesuradwy i fonitro cynnydd a gwerthuso effeithiolrwydd ymyriadau (Harris a Chapman, 2002). Gwelir felly bod y cam hunanwerthuso yn yr ysgol yma yn drylwyr iawn.

Yn y cam nesaf, mae'n angenrheidiol bod y CDA yn cynnwys manylion clir am amserlenni, atebolrwydd, camau gweithredu a chyfrifoldebau fel bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol (Cynlluniau Datblygu Ysgolion, 2014). Heb y wybodaeth yma, mae Fidler yn nodi na fydd y cynllun yn cael ei werthfawrogi na'u weithredu'n iawn (Fidler, 2002). Mae'r adran felly yn nodi bod canfyddiadau hunanwerthuso yn dangos nid oedd perfformiad bechgyn gystal â pherfformiad merched, ac roedd hyn yn batrwm amlwg ar draws y sir. Ymatebwyd felly trwy gyflwyno amryw o strategaethau a fydd yn tanio dychymyg bechgyn yn y gwersi megis arbrofi gyda 'podcasts' doniol ac adnoddau gweledol, creu gweithgareddau hwyl neu gystadleuol a strategaethau asesu ar gyfer dysgu newydd megis 'cicio'r camsyniad'. Enghraifft o un strategaeth arall diddorol oedd defnyddio gwaith Minecraft i fyfyrion ar eu gwaith. Mae creu amgylchedd dysgu cefnogol a chynhwysol yn hanfodol ar gyfer mynd i'r afael â thangyflawni bechgyn. Mae hyn yn cynnwys gweithredu strategaethau i hybu ymddygiad cadarnhaol, lles emosiynol, a chydlyniant cymdeithasol ymhlith myfyrwyr (Fisher, McKechnie, a Spooner-Lane, 2008). Nodwyd gan yr ysgol taw effaith dymunol yr agwedd yma yw i'r dysgwyr fod yn fwy parod i gwblhau gwaith annibynnol a gallant ymfalchïo ynddo. Bydd hon felly yn codi safonau er mwyn gweithredu CDY yr ysgol gyfan.

Ym mhellach, bydd yr adran yn myfyrion ar y dulliau yma, ac yn gwella arno ar ôl amser o dreialu beth sy'n gweithio neu beidio. Nid dyma yn wir bydd cam olaf datblygu CDA. Bydd y cylch yn barhaol, ac yn aros yn fyw ar gyfer hunanwerthuso a gwelliannau pellach (Cynlluniau Datblygu Ysgolion, 2014).

Adfyfyrion a Gwerthuso

Mae Cwricwlwm i Gymru yn rhoi ffocws sylweddol ar fynd i'r afael ag anghenion addysgol bechgyn sy'n tangyflawni. Gan gydnabod y gwahaniaethau parhaus mewn perfformiad academiaidd rhwng bechgyn a merched, mae'r cwricwlwm yn pwysleisio tegwch a chynhwysiant i sicrhau bod pob myfyriwr, waeth beth fo'i ryw, yn cael cyfle cyfartal i lwyddo (Llywodraeth Cymru, 2020).

Er bod y CDA yn gwneud ymdrech arbennig i gymryd gafael ar dangyflawni bechgyn, gall datblygiad pellach i'r proses sicrhau llwyddiant a chynnydd i ddysgu bechgyn yn yr ysgol. Ar y lefel systemig, mae mynd i'r afael â rhwystrau strwythurol a rhagfarnau o fewn y system addysg yn hanfodol ar gyfer hyrwyddo tegwch rhwng y rhywiau a mynd i'r afael â thangyflawni bechgyn. Mae hyn yn cynnwys archwilio cynnwys y cwricwlwm ac arferion addysgu i sicrhau eu bod yn gynhwysol ac yn berthnasol yn ddiwylliannol (Connell, 1996). Gall darparu datblygiad proffesiynol a hyfforddiant i athrawon ar addysgeg rhyw-sensitif a

strategaethau ar gyfer ymgysylltu â bechgyn wella effeithiolrwydd addysgu a chanlyniadau myfyrwyr (Gorard, Rees, a Salisbury, 2001). Mae'n bwysig felly i ddisodli'r stereoteipiau sydd ar addysg i fechgyn, a gwneud i fechgyn teimlo'n fwy hyderus i wneud yn dda a'i newid blaenoriaethau ei hun.

Yn ogystal, awgryma Estyn (2023), bod gormod o ffocws gan yr ysgol ar godi safonau, ac nid ddigon ar wella ansawdd yr addysgu a sgiliau disgyblion iau. Mae gwella ansawdd addysgu a sgiliau disgyblion iau yn hanfodol ar gyfer eu llwyddiant academiaidd a'u taith dysgu gydol oes (OECD, 2021). Mae arferion addysgu effeithiol sydd wedi'u teilwra i anghenion dysgwyr iau yn meithrin amgylchedd cefnogol sy'n hyrwyddo ymgysylltiad a chyflawniad (Graham *et al.*, 2017). Mae buddsoddi mewn datblygiad proffesiynol athrawon yn gwella strategaethau hyfforddi a rheolaeth ystafell ddosbarth, gan greu profiadau dysgu cadarnhaol (Darling-Hammond a Richardson, 2009). Trwy roi blaenoriaeth i ansawdd addysgu a datblygu sgiliau disgyblion iau, rydym yn rhoi'r sylfaen iddynt ffynnu'n academiaidd ac addasu i heriau'r dyfodol (Hattie, 2009).

Casgliad

Yn ystod y papur hwn, canolbwyntiwyd ar bwysigrwydd cynllunio datblygu ysgolion (CDY) llwyddiannus ar ddeilliannau dysgwyr ar gyfer gwelliant. Nodwyd bod dechrau gyda gweledigaeth "glir" cyn hunanwerthuso, cynllunio strategol, gweithredu a gwneud gwelliannau ac adolygu effaith yn sylfaen effeithiol ar gyfer datblygu CDY llwyddiannus (Cynlluniau Datblygu Ysgolion, 2014).

Amlyga pwysigrwydd gwella tangyflawni bechgyn, nid yn unig yn yr ysgol dan sylw, ond o gwmpas Cymru i gyd. Mae rhaid i ni fel addysgwyr creu amgylchedd o gyfiawnder hen stereoteipiau.

Yn sicr, wrth i ni ddatblygu yn broffesiynol, mae'r gwaith ymchwil yma wedi ein rhoi ar y trywydd cywir wrth i ni werthuso'n feirniadol ar y camau gweithredu, yr effaith a'r sylfaen dystiolaeth gan sicrhau effaith bositif ar ddysgwyr.

Rhestr Darllen

- BBC News. (2019). *Education: Underachieving schoolboys 'must be a priority'*. Ar gael yn: <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-49729041> (Cyrchwyd 17 Chwefror 2024).

- Bradshaw, J. Ager, R. Burge, B. and Wheater, R. (2010) *PISA 2009: Achievement of 15- Year-Olds in Wales*. Slough, NFER.
- British Educational Research Association (BERA, 2018). *Ethical Guidelines for Educational Research*, fourth edition, London. Ar gael yn: <https://www.bera.ac.uk/researchers-resources/publications/ethicalguidelines-for-educational-research-2018> (Cyrchwyd 16 Chwefror 2024).
- Browne, K. a Mistos, E. (1998) 'Gender differences in education: the underachievement of boys', *Sociology Review*, tud. 27-31.
- Burns, J. a Bracey, P. (2001) 'Boys' Underachievement: issues, challenges and possible ways forward', *Westminster Studies in Education*, 24.2, tud 155-166).
- Connell, R. W. (1996) 'Teaching the Boys: New Research on Masculinity, and Gender Strategies for Schools', *Teachers College Record*, 98(2), 206-235.
- Darling-Hammond, L., a Richardson, N. (2009) 'Research Review: Teacher Learning: What Matters?', *Educational Leadership*, 66(5), 46-53.
- Dauncey, M. (2023). *Sut wnaeth Cymru berfformio yn PISA 2022?* Ar gael yn: <https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/sut-wnaeth-cymru-berfformio-yn-pisa-2022/> (Cyrchwyd 16 Chwefror 2024).
- Epstein, J. L. (2001). *School, Family, and Community Partnerships: Preparing Educators and Improving Schools*. Colorado: Westview Press.
- ESTYN (2023). *Adroddiad Adolygu* [REDACTED]. Ar gael yn: [https://www.estyn.gov.wales/system/files/2023-12/Inspection%20report%20\[REDACTED\]](https://www.estyn.gov.wales/system/files/2023-12/Inspection%20report%20[REDACTED]) (Cyrchwyd 16 Chwefror 2024).
- Fidler, B. (2002). *Strategic Management for School Development: Leading your School's Improvement Strategy*. Newcastle Upon Tyne: SAGE.
- Fisher, D. L., McKechnie, J., a Spooner-Lane, R. (2008). *Making Schools Safer: An Integrated Approach to Addressing School Violence and Bullying*. Berlin: Springer Science a Business Media.
- Francis, B. (2000). *Boys, Girls, and Achievement: Addressing the Classroom Issues*. New York: Routledge.
- Gorard, S., Rees, G., a Salisbury, J. (2001) 'Investigating the Patterns of Differential Attainment of Boys and Girls at School', *Educational Studies*, 27(2), 165-182.
- Graham, A., Phelps, R., Maddison, C., a Fitzgerald, R. (2017) 'Supporting Pedagogical Development within the Learning and Teaching Nexus: The Student Voice', *Journal of Further and Higher Education*, 41(1), 109-121.

- Harris, A., a Chapman, C. (2002). *Effective Leadership in Schools: How to Achieve It and Sustain It*. New York: Routledge.
- Hattie, J. (2009). *Visible Learning: A Synthesis of Over 800 Meta-Analyses Relating to Achievement*. New York: Routledge.
- Jackson, D. (1998). *Breaking out of the binary trap: boys' underachievement, schooling and gender relations*. Buckingham, Open University Press.
- Jackson, D. a Salisbury, J. (1996) 'Why should secondary schools take working with boys seriously?' *Gender and Education*, 8, tud. 103-115.
- Levacic, R., 1999. *Managing resources for school effectiveness in England and Wales: institutionalising a rational approach*. Munster and New York: Waxmann.
- Llywodraeth Cymru. (2014). *Cynlluniau Datblygu Ysgol*. Caerdydd: Crown.
- Llywodraeth Cymru. (2022). *Cwricwlwm i Gymru: Gwneud iddo ddigwydd*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-i-gymru-cynllun-gweithredu/#gwneud-iddo-ddigwydd---cefnogi-ysgolion-a-lleoliadau> (Cyrchwyd 16 Chwefror 2024).
- Llywodraeth Cymru. (2020). *National Survey for Wales 2019-20: Educational Attainment*. Ar gael yn: <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-08/national-survey-for-wales-educational-attainment-april-2019-to-march-2020-2085.pdf> (Cyrchwyd 17 Chwefror 2024).
- Masters, G. 2016. *Five steps to school improvement*. Ar gael yn: <https://www.acer.org/gb/discover/article/five-steps-to-school-improvement> (Cyrchwyd 17 Chwefror 2024).
- Murphy, P. (2018). *School Development Planning: An Introduction to School Development Planning and the Role of the School Development Plan*. Educational Company of Ireland.
- My Local School (2022). Ar gael yn: <https://gov.wales/my-local-school-guide> (Cyrchwyd 16 Chwefror 2024).
- Organisation for Economic Co-operation and Development (OECD). (2020). *The OECD Teaching and Learning International Survey (TALIS) 2018: Wales Country Note*. OECD Publishing.
- OECD. (2021). *Education at a Glance 2021: OECD Indicators*. OECD Publishing.
- Smyth, J., Dowling, J., Hattam, R., a Reid, A. (2000). *Teachers' Work in a Globalizing Economy*. New York: Routledge.
- www.youtube.com. (2019). *Hanes Homework, but it's Minecraft*. Ar gael yn: <https://youtu.be/dTibWQn6Rwg?si=Bf13bmTu0LWE6ZOi> [Cyrchwyd 20 Chwefror 2024].

